# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30 y.h. NOS LUN 2 fed MEDI 2024.**

## 1. CROESO

Croesawyd y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod. Wedi marwolaeth y Cynghorydd John Roberts fe sefyllodd y cyfarfod a cadw mynud tawel er ei gof.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorion John Evans, Irwedd GRIFFITHS, Glena Humphrey,Gwenda DAVIES, Goronwy R. WILLIAMS, Gethin OWEN, D. Gwyn Jones, a Cynghorydd y Sir - Ifor G. Lloyd, Clerc – Mel Jones

## 3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorion Hefin WILLIAMS a Bryn JONES.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Nid oedd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed Gorffennaf 2024 (Cynnig - Cynghorydd Goronwy R. WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd D. Gwyn JONES)

## 6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Gorffennaf 2024 a 20fed Awst 2024.

Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

I ben 20fed Gorffennaf 2024

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £4,800.24 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | = £570.12 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £59.40 (ASTON Hughes – gwaith cyflogi) |
| | = £38.34 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL) |
| **Cyfrif Cymunedol** | = £4,127.38 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,698.01 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,698.01 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfanswm** | **= £9,825.39 (Cludwyd Ymlaen).** |

I ben 20fed Awst 2024.

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £4,127.38 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = £4,333.00 (Cyngor Conwy – Praesept) |
| Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | = £570.12 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £427.20 (HMRC – cyflog y Clerc) |

**Cyfrif Cymunedol** = £7,600.46 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfrif Busnes** = £5,698.01 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = £0.00
Arian i Mewn = £0.00

**Cyfrif Busnes** = £5,698.01 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfanswm = £13,298.47 (Cludwyd Ymlaen).**

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£38.34 – BT – Anfoneb misol WiFi.
£162.00 – Cradur.com – gwaith y wefan
£316.80 – JDH Business Services Ltd – costau archwiliad lleol

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 8. GOHEBIAETH

### Derbynwyd

a. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc
b. LLythyr gan y cyn Glerc Tom Jones yn diolch i'r Cynghorion am y cinio farwell yn y Llew Gwyn, Llanelian.
c. E bost gan Cyngor Conwy yn diweddarau fod y gost o osod goleuadau nadolig wedi codi i £396.00. Fydd hyn yn efeithio cost y goleuadau nadolig yn Betws yn Rhos.

### Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC

2. Llythyrau ac ebyst i’r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i’r Cyngor

Dim ceisiadau yn y cyfnod yma.

Ar y funud does dim ffurflen cais grant oddiwrth y Cyngor Cymuned yn bodoli. Fe rhanwyd y Clerc drafft o ffurflen hefo’r cyfarfod. Roedd cytundeb fod ffurflen cais yn cael ei defnyddio yn symud ymlaen.

### b. Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i’r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

## 10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/51897** **Ymgeisydd: Eirlys Parry**

Cynllun: Defnyddio tir dros dro i leoli pabell fawr am y cyfanswm o 28 o ddiwrnodau y flwyddyn

Safle: Oak Tree Farm, Ffordd FFynhonnau, Betws yn Rhos, LL22 8AB

Wedi trafodaeth doedd dim gwrthwynebiad i'r cynllun. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio i gadarnhau fod ystyriaeth wedi ei gymeryd ynglyn a swn a traffig ychwanegol.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/51882 Ymgeisydd: Mr Alex Chesworth**

Cynllun: Gwaith i'r adeilad presennol i ymdrin â materion hygyrchedd gan gynnwys estyniadau ar gyfer gosod lifft domestig, codi garej 3 cerbyd gyda pharcio hygyrch ac adeiladu cyfleuster adsefydlu gan gynnwys campfa cartref, pwll hydrotherapi, ystafell wlyb/man newid, ystafell stêm a sawna.

Safle: Plas Llewelyn Glasfryn Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NR

Gan fod y cais yma wedi cael ei yrru pan doedd dim cyfarfod ac fod Cyngor Sir eisio sylwadau cyn cyfarfod mis Medi gafodd y cynllun ei E bostio i'r Cynghorion. Doedd dim gwrthwynebiad a mae'r gwybodateh yma wedi cael ei yrru i Cyngor y Sir.

Roedd cadarnhad gan y Cynghorion na doedd dim gwrthwynebiad i'r cynllun. Mae hyn wedi cael ei yrru i'r Adran Gynllunio.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/51922 Ymgeisydd: Gareth Williams**

Cynllun: Estyniad i'r Sied Amaethyddol er mwyn cael darpariaethau storio, fel y nodir yn y datganiad o anghenion y cleient.

Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG

Wedi trafodaeth doedd dim gwrthwynebiad i’r cynllun. Y Clerc i ysgrifennu i’r Adran Gynllunio i uchafbwyntio nad oedd digon o wybodateh ynglyn a maint yr adeilad yn y datganiad cynllunio. Hefyd fod ystyriaeth i blannu coed/gwrychoedd o rhywogaeth brodorol i fynny i dair medr uchel. Hefyd fod gwybodaeth yn ei gael ynglyn a gollwng nitradau a ffosffad i mewn i unrhyw sianeli dwr.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/51926** **Ymgeisydd: Ms Wendy Molloy**

Cynllun: Tocio'r canghennau sy'n dod dros yr eiddo: Coeden Dderw - Torri'r brig. Coeden DderwFythwyrdd - Tocio'r canghennau fetr uwchben y ty haf a thocio'r canghennau 3-4 metr.

Safle: Tu cefn o 8 Llys y Dderwen Betws yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AQ

Wedi trafodaeth doedd dim gwrthwynebiad i’r cynllun

**Cyfeirnod 0/51728** **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Codi Annedd a thai allan

Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidiart Road Betws yn Rhos

**Mae’r cynllun yn cael ei wrthod gan y Cyngor Sir ar 14fed Awst 2024**

**Cyfeirnod: 0/51705 Ymgeisydd: David Learmount**

Cynllun: Addasu'r heulfan bresennol gyda tho wedi'i insiwleiddio a portsh newydd i greu canolbwynt i ymwelwyr.

Safle: Tan Y Bryn Tan Y Bryn Bach Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

**Mae’r cynllun wedi cael caniatad gan y Cyngor Sir ar 22fed Gorffennaf 2024**

**Cyfeirnod: 0/51618 Ymgeisydd: Nina Cole**

Cynllun: Cadw strwythurau'r pafiliwn am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd

Safle: White Lion Inn Llanelian Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YA

**Mae’r cynllun yn cael caniatad gan y Cyngor Sir ar 15fed Awst 2024**

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae’r Archwilaid Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn ‘Archwiliad Llawn’. Mae’r gwaith eisio ei gwbwlhau erbyn diwedd mis Medi 2024.

Mae canlyniad yr archwiliad lleol wedi cael ei dderbyn gan JDH Business Services ar y 26ain Gorffennaf 2024.

Fe trafodwyd y cynllun gan y Cynghorion ac roedd cydweld y canlynol:

a. Yr adroddiad blynyddol i gael ei ddiweddaru i ddangos costau staff yn £5.575 a taliadau eraill i £7,989
b. Yr rhestr assetion i gael ei diweddaru i ddangos y gost prynu ac hefyd i ddangos y teledu WiFi gafodd ei prynu yn 2023/24 am £1,762.68
c. Y cofnodion o’r cyfarfod perthnasol yn 2025 i ddangos manylion cais y praesept ac y cyllideb cefnogol.

d. Roedd y Clerc yn diweddaru for e bost wedi ei dderbyn gan Mrs Aloma Wheway, Trysorydd Cymdeithas Chwaraeon Betws yn Rhos yn cadarnhau fod nhw wedi derbyn taliad grant o £500.00 i'r Hwb Cynnes

Arwyddwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Cadeirydd John Evans a'r Clerc.

Roedd y Cynghorion yn fodlon i'r dogfennau cael ei gyrru i Archwiliad Cymru am yr archwiliad llawn.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Derbynwyd diweddaraid gan Cynghorydd Ifor Lloyd am y cyllid diwethaf yn effeithio gwasanaethau y Cyngor Sir.
Os oes unrhyw ffosydd yn gorlifo ddyliau Cyngor y Sir gael y gwybodaeth.
Mae gwaith tocio gwrychoedd wedi cael ei gwbwlhau. Fydd y gwaith ond yn cael ei gwbwlhau unwaith y flwyddyn.
Ddyliau gwaith atgyweiro y ffyrdd ar ol Storm Babet wedi cael ei gwbwlhau. Mae y ffyrdd canlynol yn disgwyl cael ei atgyweiro

a. Cyffordd Rhwng y Ddwyffordd – B5381
b. Ffordd Abergele rhwng Beniarth Fawr a cyffordd Bryn Ffanigl Uchaf
c. B5381 rhwng Nant yr Efail a cyffordd Aber Myrson
d. I'r gorllwein o mynedfa Bryn Ffanigl Uchaf.

Y Clerc i ysgrifennu i Cyngor Conwy i uchafbwyntio for y gwaith heb gael ei gwbwlhau.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Mae yr amcangyfrif diweddaraf i adnewyddu yr offer gan G.L. Jones wedi cyrraedd. Y gost fydd £12,780. (£9,700.80 oedd y gost yn 2022)

Y gost i cael offer newydd gan 'Creative Play'– basged swing, canolfan gweithgaredd hefo matiau glaswellt yw £17,150.00. Y gost am popeth fydd £26,850.80

Roedd cytundeb gan Cyngor Conwy fuasai yr offer sydd yn y cae yn cael ei cadw yn cael ei adnewyddu y flwyddyn yma. Y Clerc yn mynd i gysylltu gyda Cyngor y Sir i gadarnhau os yw y gwaith yn mynd i gael ei wnued neu ddim. Mae sawl unigolyn wedi symud swydd a Owen Conroy yn mynd i gysylltu hefo'r Clerc.

Wedi cael ateb y Clerc i gysylltu hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

b. **Diffibrilwyr.**

Y gwaith i leoli diffibrilwr newydd yn safle y bont newydd yn Dawn hen ei gwbwlhau. Dal ddisgwyl amcangyfrif y gost. Y Clerc wedi siarad eto hefo Ifan Rowlands (Rheolydd Goleuadau Strydoedd Cyngor y Sir). Mae yn amlwg fod y postyn trydan oedd yn mynd i gael ei ddefnyddio ddim yn addas. Fydd rhaid I'r diffibrilwr gael ei osod ar draws y ffordd fydd yn golygu cost ychwanegol – yn enwedig torri cangennau coed. Mae amcan gost yn dal ei ddisgwyl gan y Cyngor Sir a Scottish Power.
Fydd rhaid prynnu diffibrilwr newydd.

Nid yw y diffibrilwyr eraill wedi cael ei trosglwyddo i gyfrif newydd y Cyngor er bod y Clerc wedi gofyn lawer gwaith. Mae tri o'r pads wedi pasio ei dyddiadau gorau ond fedrith y Clerc ddim yn medru archebu rhai newydd. Y Clerc yn dal i drio cysylltu a Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau**

Mae Cynghorydd Gethin OWEN yn ymdrechu i roid y gwlau blodau ar ochr y ffordd B5381 wrth arwydd Betws yn Rhos ac yn groesffordd Rhwng y Ddwyffordd. Mae planhigion ar gael gan y Cyngor Sir.

Mae pryder ynglyn a dim planhigion yn potiau o gwmpas pentref Betws yn Rhos ac chwyn/glaswellt o gwmpas y meinciau yn Ffordd Abergele heb gael ei dorri.

Mae'r Clerc wedi cysylltu a Adran Gerddi a Adran AFC Cyngor Conwy ar y 4ydd Fehefin 2024 ond heb gael ateb.

Mae'r Clerc wedi siarad hefo unigolyn lleol i wneud y gwaith i dacluso o gwmpas y meinciau a ail blannu y potiau. Heb gael ateb eto gan yr unigolyn. Fe benderfynwyd fuasai'r Clerc yn gofyn i unigolyn arall fuasai'r person lleol ddim eisio'r gwaith.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos.**

Fydd rhaid i'r toiledau newydd gael ei adeiladu ar dalcen y Pafiliwn Chwareon. Fuasai rhaid i'r Pwyllgor Chwaraeon ymgeisio am y cynllun. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi y Pwyllgor Chwaraeon.
Mae Cynghorydd Ifor Lloyd wedi gyrru gwybodaeth i'r Clerc fod grantiau ar gael i gefnogi cymunedau i agor toiledau gan fod y Cyngor Sir yn cau nifer o doiledau.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y 15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen sydd yn achosi difrod i'r tro ac i lorriau sydd yn cludo nwyddau i'r ardal. Mae y Clerc wedi ysgrifennu i adran AFC yn y Cyngor Sir ond mae nhw wedi camddeallt y broblem. Dim achos o dorri y cloddiau ydi'r broblem. Mae ochr y ffordd wedi dirhywio hefo cerrig mawr yn effeithio y traffnidiaeth. Y Clerc yn mynd i ddiweddaru y Cyngor Sir.

Mae y Cyngor Sir wedi monitro cyflymder traffig drwy Betws yn Rhos. Y canlyniadau yw:

Rhif o fesuroedd mewn saith diwrnod – 5,393

Cyflymder 'mean' cerbydau – 24 milltir yr awr.
Rhif cyfartaledd o gerbydau mewn wythnos gwaith – 729
Cyflymder 85% o gerbydau yn trafeilio ar neu oddi tan – 31 milltir yr awr.

Mae y Cyngor Sir wedi gyrru y canlyniadau yma i adran 'Gan Bwyl' (GoSafe) iddynt ddod i'r pentref.

Mae yr unigolyn a gododd y broblem wedi cael ei ddiweddaru.

Cododd y Cynghorydd John Evans fater oedd unigolyn wedi godi ynglyn a dim Safle Bws gorchuddiedig yn Betws yn Rhos. Mae teithwyr a plant ysgol allan yn y tywydd. Y Clerc i ysgrifennu i Adran AFC y Cyngor Sir i godi y mater.

Mae unigolyn wedi uchafbwyntio fod y Cyngor heb docio ochr y ffordd ar gwrych yn Ffodd y Figin rhwng fferm Bryn Elain a Llanelian. Y Clerc i ysgrifennu i Adran AFC y Cyngor Sir i godi y mater.

Y Clerc yn diweddaru ei fod wedi archebu dwy dorch yn parod at dydd Sul coffa.

**14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00
Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12/84

**15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Mae y Clerc wedi cael E bost i ddiweddaru fod arolwg yn cael ei cario allan gan gwmni Oxford Archeology ar dir yn FFordd Abergele a tir i'r de o Ffordd Glascoed, Llanelwy. Dyma'r llwybr fydd cablau o'r Fferm Wynt Alltraeth Mona yn ei ddilyn. Dyma'r pedwerydd cyfnod o'r arolwg yma.

Fydd y gwaith yn cychwyn ar yr 2fed o Fedi 2024 ac yn cymeryd pythefnos i'w orffen.

Fydd gwaith gwirioneddol Fferm Wynt Mona yn dechrau yn 2027.

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen ond yn disgwyl BT.

Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

Mae'r gwaith gan BT i osod WiFi yn mynd ymlaen ac mae eisio gosod llinell newydd i'r adeilad. Mae BT yn cymeryd oesoedd i wnued y gwaith. Mae y Clerc yn brysur yn gofyn am ddiweddariad ac mae BT wedi gaddo fydd newyddion erbyn 6ed Medi 2024. Roedd pawb yn cydweld i'r Clerc i edrych i osod Dongle yn y neuadd yn y cyfamser a talu am hwn yn fisol.

Mae CCTV Services wedi bod yn Llanelian i roid cost i osod system teledu ayyb yn y Ganolfan yn debyg i'r system yn ei le yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos. Yn disgwyl amcangyfrif.

**17. Y GADLAS**

Dim awgrymiadau am erthygl.

**18. UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.45 yh.

CADEIRYDD ……………………………………………………….John EVANS

CLERC………………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 7 fed Hydref 2024